

Comisiwn Dylunio Cymru Design Commission for Wales

Adroddiad yr Adolygiad Dylunio

Dyddiad y Cyfarfod / Cyflwyno'r Deunydd:	2 Gorffennaf 2003
Lleoliad:	Pontypridd
Penseiri / Tîm Dylunio:	Camlin Lonsdale Carey Jones Architects
Disgrifiad o'r Cynllun:	Cynnig manwerthu.
Corff Cyhoeddus/Arall:	Rhondda Cynon Taf

Rhodfa Angharad, Pontypridd

Cynllun manwerthu yw hwn ar gyfer rhan ogleddol prif ardal siopa Pontypridd ac mae'n deillio o dendr cystadleuol gan y Cyngor. Enillwyd y tendr ym 1988 a chafodd ei brynu'n ddiweddarach gan y datblygwyr presennol. Mae ganddynt eisoes ddau ganiatâd ar y safle, a phenderfyniad gan y Cyngor i roi un arall. Yr oedd y cynllun cyfredol yn gais tua diwedd 2001, ond fe'i diwygiwyd a cheisir caniatâd amlinellol ar ei gyfer ar hyn o bryd. Mae cyfnod maith ei baratoi'n awgrymu ei fod yn codi materion pwysig o ran dylunio ac ymarferoldeb, a bod dwys angen eu datrys a dechrau'r adfywio mawr ar ganol y dref.

Y cynnig yw codi archfarchnad Sainsbury's o bron 7,000 m² gros a 46 o unedau manwerthu o amrywiol faintioli, gan gynnwys cryn ddefnydd A3, a lleoedd parcio i 660 o geir. Bwriedir cynnwys y cyfan ar safle o 3.5 hecтар ar ochr orllewinol Afon Taf a chodi parc ceir aml-lawr ar yr ochr ddwyreiniol. Dyma hanfod y brif broblem ddylunio gan fod y maes parcio'n ymwithio i Barc Angharad, parc cyhoeddus o bwys cenedlaethol a grëwyd yn ystod oes Victoria. Effaith yr angen i godi dwy bont ar draws yr afon a defnyddio deciau parcio a fydd, yn rhannol, yn codi allan dros yr afon fydd amharu ar ansawdd glannau'r afon.

Yr ymagwedd ddylunio

Cytunem yn llwyr â'r tîm datblygu/dylunio mai cyfle gwych i adfywio'r ardal fydd cyflwyno uwchfarchnad safonol fawr yn angor gogleddol i symudiadau cerddwyr yn y dref, a chyfle na ddylid ei gollu. Cytunem fod y cynllun, o ran y lleoliad, yn ateb cynaliadwy a gyfnerthai'r cynnig manwerthu presennol a'i fod o fewn cyrraedd hwylus ar gludiant cyhoeddus. Nodwyd lleoliad y parciau ceir a'r gorsafoedd rheilffyrdd a bysiau, a bod y rheiny'n cynnig fframwaith lle byddai'r ddarpariaeth newydd o ran manwerthu a pharciau ceir yn cyfnerthu hygyrchedd y fan i gerddwyr ac yn ychwanegu at fywiogrwydd mannau cyhoeddus ledled y dref.

Bu i ni hefyd ddilyn rhesymeg anochel lefelau'r datblygiad ynghyd â chyfyngiad y llinell lifogydd sy'n bod ers 100 mlynedd, a chredwn fod y trefniadau gwasanaethu yn anymwithiol ac effeithlon. Mae lefel y Piazza newydd yn gweithio'n dda mewn perthynas ag ail lefel y parc ceir, er bod y cwmp i'r afon yn rhwystro unrhyw berthynas go-iawn â'r dwr ei hun. Yr oeddem yn falch o weld bod Sainsbury's wedi cytuno â'r syniad o gael unedau manwerthu bach ar Taff Street a swyddfeydd uwch eu pennau, a gosod eu siop goffi yn nhu blaen y siop i fywiogi ochr y piazza. Credwn fod y ddwy stryd agored newydd sy'n cydgyfarfod â lefel isaf y piazza yn ddatblygiad ar raddfa briodol, a'u mantais yw eu bod yn ddigon o atyniad cryf i gerddwyr i'w gwneud hwy'n hyfyw. Nid oedd gennym ddigon o amser i ymchwilio i natur y grisiau symudol i'r piazza a chredwn y byddai hynny'n fanylyn dylunio o gryn bwys.

Ein hamheuaeth fawr

Cwtogwyd ar faint y parc ceir ar ochr ddwyreiniol yr afon a chwtogwyd hyd yr eithaf ar ei effaith ar y parc. Gallai tirweddu a thriniaeth ofalus ei wella ymhellach eto. Er hynny, yr ydym o'r farn mai gwell fyddai cadw'r holl geir ar y lan ddwyreiniol, hyd yn oed os yw hynny'n golygu ychwanegu llawr arall at y parc ceir. Byddai hynny'n gadael y piazza'n deras afon ac yn llwybr cerdded i gerddwyr yn unig, ac yn dileu'r angen am y ddwy bont ffordd dros yr afon. Gellid dylunio pâr o bontydd cerdded yn nodweddion ar y cynllun bob pen i'r parc ceir, a byddai'r rheiny'n dal i fwydo i mewn i Bridge Street a'r parc. Gallai codi pont yn y pen deheuol fod yn ddigon pe câi'r llwybr cerdded ar hyd glan orllewinol yr afon ei estyn tua'r gogledd hyd at Bridge Street.

Dyma enghraifft glasurol o'r cyfaddawdau sy'n angenrheidiol i sicrhau hyfywdra masnachol a chwtogi hyd yr eithaf ar yr effaith ar amwynderau. Yn yr achos hwn, mae'n fater o ba un a ddylai gael y flaenoriaeth – y parc, yr afon neu'r piazza, neu a fwriedir cyfaddawdu yn achos y tri ohonynt? Ein barn ni yw y dylai'r afon a'r piazza gael y flaenoriaeth gan fod modd cynnwys lefel arall yn y parc ceir y tu ôl i'r rhes bresennol o goed, heb i hynny gael fawr o effaith ychwanegol ar y parc. Ni fyddai'n creu'r rhith bod parc ceir agored o flaen siop Sainsbury, sef rhywbeth y gallent ystyried ei fod yn anfantais fasnachol. Ond fe fyddai'n esgor ar gryn fanteision o ran dylunio trefol drwy adael yr afon yn nodwedd gadarnhaol a'r piazza'n ofod di-draffig sy'n cynnig golygfeydd hyfryd a chysylltiadau da i gerddwyr. Deallwn awydd Sainsbury's i gael rhywfaint o le parcio'n union y tu allan i'w drws ffrynt. Awgrymwn y dylid ystyried symud eu "drws ffrynt" i ochr ddwyreiniol yr afon, a hynny efallai drwy ddarparu rhywfaint o gysgod rhag y tywydd (heb gau'r gofod hwnnw i mewn yn llwyr) i un o'r pontydd i gerddwyr.

Er ein bod yn sylweddoli y byddai hynny'n creu anawsterau o ran hygyrchedd y parc ceir i'r swyddfa ym mhen gogleddol y safle, credwn y gellid eu goresgyn drwy gael mynedfa o Taff Street. Credem fod y pwynt a wnaeth Cadw ynghylch yr angen i ailystyried dyluniad mynedfa'r parc yn ystyriaeth bwysig.

Er y gwyddem y byddwch chi'n mynd dros yr un tir wrth ailystyried holl fater parcio ceir ar yr ochr ddwyreiniol, ond credwn nad yw codi tair pont dros yr afon a'r cantilifro ychwanegol yn dderbyniol yn y lleoliad hwn nac fel cynsail gyffredinol ym maes dylunio trefol. Mae'n hollbwysig i'r Cyngor benderfynu ar amcanion allweddol y dyluniad gan bwysu a mesur manteision ac anfanteision y mater.

Sylweddolwn fod y cynnig yn un sy'n ymateb yn gadarnhaol, ar sawl lefel, i strategaeth gynaliadwyedd y Cynulliad Cenedlaethol o ran pryderon economaidd a chymdeithasol. Anogwn y datblygwr a'r tîm dylunio i roi fynd ati o ddifrif, wrth wneud y gwaith dylunio manwl, i ystyried pryderon amgylcheddol ac, yn arbennig, yr effaith ar y parc a glannau'r afon, allyriadau o garbon deuocsid, di-hysbyddu adnoddau, a bioamrywiaeth.

Manylion dylunio

Yr oedd sawl mater arall, llai pwysig, y dymunem eu codi, ond mater o fanylion y dylunio yw'r rheiny'n bennaf.

- Byddai dyluniad y parc ceir hyd yn oed yn bwysicach o'i godi un lefel, ac mae angen cysyniad dylunio cryf sef, efallai, adeiladwaith arbennig o gain ei beirianwaith neu gysyniad sy'n parchu'r dirwedd drwy guddio'r adeiladwaith o'r

golwg. Dyma gyfle gwirioneddol i ychwanegu at y rhestr fer o ddyluniadau o barciau ceir sydd wedi cael clod rhyngwladol!

- Cytunem yn llwyr â'r angen i roi manylion ar yr adeiladau mewn ffordd a fyddai'n parchu trefwedd Taff Street, a chroesawem awydd y penseiri i osgoi *pastiche*. Ond yr oedd y dyluniadau rhagarweiniol a welsom fel petaent yn dibynnu gormod ar aildehongli'r ffasadau presennol yn llythrennol. Credwn fod modd dylunio gweddoluniau sydd â chyfraneddau cywir ac yn gymhleth eu manylion heb orfod copïo'n uniongyrchol – ond sylweddolwn nad yw hynny'n rhwydd, yn enwedig wrth ymdrin ag adeiladau mor sylweddol â'r rhai ar hyd Taff Street
- Teimlem y gellid trin muriau'r afon â mwy o gydymdeimlad gan hybu llystyfiant a chynefinoedd a lliniaru'r effaith hynod ddiennid a gaiff hyd at 12 metr o fur concriid. Dyma sialens i'ch penseiri tirwedd.
- Gellir cael rhagor o giosgau ar ochr y piazza i siop Sainsbury i fywiogi'r ochr honno. Fel arall, mae angen i'r siop gael tu blaen sydd mor fywiog a thryloyw â phosibl.
- Mae dyluniad y bont gerdded, a'r ffordd y mae hi'n disgyn i'r parc, yn gyfle mawr i'r project hwn ddangos dawn dylunio.
- Yn ein barn ni, byddai estyn y llwybr ar hyd yr afon tua'r de yn gyrchnod cynllunio pwysig i'r Cyngor.

Byddem yn fodlon cyflwyno sylwadau ar y cais manwl, a hoffem eich llongyfarch ar eglurder y datganiad dylunio a'r daflen a ddarparwyd gennych i grynhoi'r cynllun. Cytunwn ei bod hi'n bwysig cychwyn ar y cynllun hwn cyn gynted â phosibl, a heblaw am yr un newid mawr a awgrymwn, fe gynigiwn ein cefnogaeth iddo.

DIWEDD